# Ar ei Liwt ei Hun - Ymchwiliadau Ehangach - Ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd

## Cyflwyniad

Mae gennym y pŵer i gynnal 'ymchwiliadau ar ei liwt ei hun'. Mae hyn yn golygu y gallwn ymchwilio i faterion, lle mae gennym amheuaeth resymol o gamweinyddu eang neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, hyd yn oed os nad yw wedi derbyn cwyn yn ei gylch gan unigolyn. Gallwn gwblhau dau fath o ymchwiliad 'ar ei liwt ei hun':

- Estyniad i ymchwiliad presennol i gŵyn a ddygwyd gan unigolyn: neu Ymchwiliad ehangach annibynnol nad yw'n ymwneud ag unigolyn neu gŵyn benodol.
- Mae'r pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun ehangach yn rhoi cyfle i ni ddarparu gwasanaeth sy'n ymatebol i faterion cyfredol, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'n bŵer a fydd yn cael ei ddefnyddio'n gynnil, ond yn effeithiol, i ymchwilio i broblem sydd – neu a allai fod – yn eang.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut byddwn yn defnyddio ein pwerau ymchwilio ar ein liwt ein hunain yn ehangach.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ymchwiliadau ar ein Liwt ein Hunain estynedig ar y dudalen 'Ymchwiliadau Ar ein Liwt ein Hunain', o dan y tab 'Amdanom ni'.

## Beth allwn ei wneud

Gallwn agor ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain pan fydd yn fodlon bod tystiolaeth yn awgrymu neu'n dangos bod camweinyddu/methiant gwasanaeth eang wedi digwydd, yn bodoli'n barod neu bod potensial i hynny ddigwydd.

Gall ymchwiliad ar ein liwt ein hunain ystyried rhan neu sector cyfan o wasanaeth a ddarperir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru a/neu bryderon sy'n ymwneud â mwy nag un corff.

Byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael i ni i sefydlu a oes angen dechrau ymchwiliad. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'r meini prawf (ar gael ar y dudalen 'Ymchwiliadau Ar ein Liwt ein Hunain', o dan y tab 'Amdanom ni') i wneud hynny yn cael eu bodloni, gan gynnwys:

- A yw'r mater er budd y cyhoedd
- A oes amheuaeth resymol o gamweinyddu eang a allai beri i unigolyn neu grŵp eang o bobl brofi anghyfiawnder neu galedi
- A fyddai'r pryderon a nodwyd yn effeithio ar grŵp eang o bobl, yn enwedig os gallent fod yn agored i niwed neu dan anfantais (er enghraifft, unigolyn neu grŵp o unigolion a fyddai'n ei chael hi'n anodd gwneud cwyn) ac yn ymddangos yn debygol o ddioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad
- Natur, swm a dibynadwyedd y dystiolaeth sydd ar gael

Nid oes diffiniad sy'n cael ei dderbyn yn eang ar gyfer budd y cyhoedd, ond mae wedi cael ei ddisgrifio fel "rhywbeth sydd o bwysigrwydd a diddordeb sylweddol i'r cyhoedd". Mae budd y cyhoedd felly'n ymwneud â rhywbeth sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae'n golygu mwy na rywbeth mae gan y cyhoedd ddiddordeb ynddo, neu fater sy'n effeithio ar unigolyn a neb arall (ond gallai'r mater effeithio'n fwy uniongyrchol ar yr unigolyn na'r cyhoedd yn ehangach).

Nid ydy cyhoedd yn y cyd-destun hwn yn golygu poblogaeth gyfan Cymru o reidrwydd. Gall gyfeirio at ran benodol o'r cyhoedd, megis cymuned fach neu grŵp buddiant.

## Beth na allwn ei wneud

Er y gallwn ystyried gwybodaeth a ddarparir i ni gan weithwyr sy'n trosglwyddo gwybodaeth ynghylch camwedd yn eu gweithle (chwythwyr chwiban), ni fydd unrhyw ymchwiliad sy'n deillio o hyn yn disodli nac yn ymyrryd â dyletswyddau, cyfrifoldebau a phrosesau chwythu'r chwiban y cyrff cyhoeddus dan sylw. Byddwn yn cyfeirio unrhyw chwythwyr chwiban posibl at y corff dan sylw neu unigolyn priodol i'w ystyried.

Mae cwynion am ddigwyddiadau penodol neu gwynion am gamweinyddu/methiant gwasanaeth sy'n effeithio ar aelodau unigol o'r cyhoedd yn unig yn annhebygol o fodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad ar ei liwt ei hun. Mae materion o'r fath yn fwy priodol i'w hystyried gan ddefnyddio ein pwerau ymchwilio cyffredinol.

## Materion i'w cadw mewn cof

Pan fyddwn o'r farn y dylen ddechrau ymchwiliad, byddwn yn trefnu ymarfer ymgynghori â rheoleiddwyr cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i ofyn am farn ar briodoldeb ymchwiliad. Gall fod yn bosibl cydweithio ag un o'r cyrff hyn i gynnal ymchwiliad ar y cyd a llunio adroddiad.

Mewn rhai achosion gallwn ofyn barn y cyhoedd yn ehangach, drwy hysbysebu'r ymchwiliad arfaethedig ar ein gwefan, yn y cyfryngau a/neu drwy gynnal digwyddiadau trafod.

## Awgrymiadau ar gyfer ymchwiliadau

Gall y canlynol gyflwyno awgrymiadau ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun:

- Y cyhoedd
- Grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, elusennau neu sefydliadau gwirfoddol

- Gwasanaethau eiriol

Os ydych chi'n dymuno awgrymu ymchwiliad, gallwch wneud hynny ar dudalen awgrymiadau '[Ymchwiliadau Ar ei Liwt ei Hun]', o dan y tab 'Amdanom ni'.

## Cysylltu â ni

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch chi am ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain, cysylltwch â ni
Areiliwteihun@Ombwdsmon.cymru